



www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Cymdeithas Tai Aelwyd - L108

Mawrth 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

Proffil

Mae Cymdeithas Tai Aelwyd (“Aelwyd” neu “y Gymdeithas”) yn Gymdeithas Tai Gristnogol a gofrestrwyd ym mis Mawrth 1991, yn dilyn trosglwyddo eiddo o'r Gymdeithas Tai Fedyddiedig a phartneriaeth gyda'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru.

Mae Aelwyd yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac yn gymdeithas gofrestrdedig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Mae Aelwyd yn berchen ar 246 o gartrefi ledled De Cymru ac yn eu rheoli, mewn 10 awdurdod lleol, gan gynnwys 223 o gartrefi gwarchod a 23 o gartrefi anghenion cyffredinol.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, trosiant y Gymdeithas oedd £1,233,378 (2017: £1,259,730). Ei gwaged cyn ail-fesur y rhwymedigaeth pensiwn oedd £145,418 (2017: £158,411) ac roedd yn cyflogi 11 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn (2017:12).

Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfartaledd ar gyfer y Sector
	2016/17	2017/18		2016/17
Perfformiad				
Gwaged gweithredu fel % o'r trosiant	18.1%	17.1%	dd/g	21.3%
Gwaged ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	12.6%	11.8%	dd/g	6.5%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti	1.6%	1.0%	dd/g	2.0%
Cyllid				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	57%	60%	dd/g	74%
Geriad (cost hanesyddol)	11%	11%	35%	44%
Sicrwydd llog	491%	490%	100%	172%
Mae gan y Gymdeithas ddigon o gyllid i fodloni ei hymrwymadau busnes ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.				

Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

Statws Cydreoleiddio – Marwth 2019

Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

Hyfywedd Ariannol - Safonol

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.